
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Mathemateg a Rhifedd

## // Gweithgareddau a Gemau



# LLINELLAU CERRIG CRWN



### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio llinellau a siapiau.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Cerrig crwn gyda llinellau neu wythiennau
***DEWISOL:*** sialc (defnyddiwch y sialc i greu llinellau ar y cerrig crwn os na fedrwch chi ddod o hyd i rai sydd â llinellau arnyn nhw'n barod)

### Beth i'w wneud…

1. Rhowch eich dysgwyr mewn grwpiau bach, gan ganiatáu amser iddyn nhw chwilio am gerrig crwn gyda llinellau'n rhedeg drwyddynt. Mae'r rhain yn fwyaf cyffredin ar draeth caregog neu ar hyd yr arfordir.

**Yn ddelfrydol, bydd angen i bob dysgwr ddod o hyd i o leiaf un garreg gyda llinellau arni.**

2. Gofynnwch i bob grŵp weithio gyda'i gilydd i weld ydyn nhw'n gallu trefnu'r cerrig er mwyn i'r llinellau ar bob un greu un llinell hir - boed honno'n un syth neu'n grom.

// *Oes modd uno'r llinellau i greu siapiau eraill, e.e. cylch neu sgwâr? Oes modd cwblhau'r un tasgau fel un grŵp mawr?*

